| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **9, CHWEFROR, 2010** |
| **PWNC** | **PROTOCOL LLEOL.** |
| **PWRPAS** | **GOFYN I'R PWYLLGOR YSTYRIED DATBLYGU PROTOCOL YMDDWYN LLEOL AR GYFER AELODAU GWYNEDD.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Fe gofia'r pwyllgor iddo lunio Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog sydd bellach wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn. Ynghlwm a'r Protocol yr oedd trefn leol ar gyfer datrys anghydfod lle nad ystyrir fod y tramgwydd yn ddigon difrifol i'w gyfeirio i sylw'r Ombwdsmon dan y Côd Ymddygiad.

2. Mae wedi dod yn hysbys fod rhai awdurdodau hefyd yn defnyddio trefn leol o'r fath ar gyfer datrys cwynion o gamymddwyn gan aelod yn erbyn aelod.

3. Mae'r syniad wedi ei drafod yn fras gyda Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol a chredir fod yna gefnogaeth i ddatblygu rhyw fath o "safon Gwynedd" fydd yn gosod allan yn glir beth ydi'r disgwyliadau ymddygiad ar aelodau Cyngor Gwynedd sydd, o bosib, yn mynd ymhellach na'r hyn y byddai'r Ombwdsman yn fodlon ymchwilio iddynt dan y Côd Ymddygiad. Byddai cwynion fod y safon wedi ei thorri yn dod i'r Pwyllgor Safonau.

4. Credir hefyd fod ambell i achos diweddar yn dangos camddealltwriaeth ymysg aelodau o bwerau'r Pwyllgor Safonau, ac y byddai sefydlu safon a threfniant lleol o'r fath yn gymorth i ddatrys hyn.

**<u>ARGYMHELLIAD.</u>**

5. Gofynnir i'r Pwyllgor drafod a chefnogi'r egwyddor o ddatblygu trefniant lleol.